# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19/7/2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 19/7/2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 29/7/2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor

**PWNC** Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru

**PENDERFYNIAD –**
Ymrwymo'r Cyngor i'r Siarter Teithio Llesol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Geraint Owen<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 08/07/2024 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : | |

**Pwnc :** Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :** Ymrwymo'r Cyngor i'r Siarter Teithio Llesol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :** Mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi dangos eu hymrwymiad i ddulliau teithio cynaliadwy trwy ddatblygu Siarter Teithio Llesol. Mae pob Siarter yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau y bydd sefydliadau'n tanysgrifio iddynt ac yn ymdrechu i'w rhoi ar waith. Mae Siarter wedi'i lunio ar gyfer Gogledd Cymru ac mae ymgais i sicrhau ymrwymiad y partneriaid o fewn y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol i'r amcanion o fewn y Siarter hwnnw.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

1.1. Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth drafnidiaeth newydd – *Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.* Ei nod yw datblygu system drafnidiaeth gynaliadwy ble mae rhagor yn cerdded, beicio neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan hefyd fodloni anghenion teithio'r cyhoedd, cefnogi'r economi a chymunedau lleol, a chael effaith bositif ar iechyd, llesiant a'r amgylchedd.

1.2. Er mwyn cyfrannu at yr agenda hwn, mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi dangos eu hymrwymiad i ddulliau teithio cynaliadwy trwy ddatblygu Siarter Teithio Llesol. Mae pob Siarter yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau y bydd sefydliadau'n tanysgrifio iddynt ac yn ymdrechu i'w rhoi ar waith, hynny gyda'r bwriad o hyrwyddo teithio amgen yn hytrach na defnyddio'r car, yn enwedig ymhlith staff ar gyfer cymudo (i ac o'r gwaith) a theithio busnes. Dosberthir yr ymrwymiadau hyn ymhlith y categorïau a ganlyn:

- Cyfathrebu ac arweinyddiaeth;
- Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Beicio a cherdded;
- Gweithio ystwyth, a;
- Cerbydau ag allyriadau isel iawn (batri trydan neu hydrogen).

1.3. Yn y Gogledd, mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi arwain ar ddatblygu Siarter Teithio Llesol mewn partneriaeth â sefydliadau ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Gwynedd. Mae'n adnabod pymtheg o ymrwymiadau ar gyfer hyrwyddo dulliau teithio amgen a chynaliadwy. Ym mis Gorffennaf 2022, cyflwynwyd y Siarter i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, gyda chais i'r sefydliadau hynny sy'n aelod o'r Bwrdd i fabwysiadu'r Siarter ac, i'r diben hwn, bod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain ar feithrin ymrwymiad i'r Siarter.

1.4. Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynwyd y Siarter i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ple cytunwyd i'w fabwysiadu mewn egwyddor. Mae Grŵp Tasg a Gorffen dan ofal y Bwrdd wedi'i sefydlu er mwyn cydlynu ymrwymiad i'r Siarter o blith sefydliadau'r Bwrdd, ac mae gofyn felly ar y Cyngor i ystyried p'un a ddylai ymrwymo i'r Siarter ai peidio.

1.5. Er bod y Siarter yn cyfrannu at agenda ehangach i greu system drafnidiaeth gynaliadwy, mae'r prif ffocws llawer mwy ymarferol ac wedi'i ganoli ar deithio amgen ymhlith staff. Golygai mai ymrwymiadau corfforaethol sydd bennaf dan sylw, h.y., sut gellid hybu a chefnogi cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ymhlith y gweithlu, a lleihau defnydd y car i deithio I'r man gwaith wrth wneud hynny.

1.6. Gellid dweud fod sawl ymrwymiad eisoes ar y gweill neu wedi'i roi ar waith yn barod yn y Cyngor; felly cynigir na fyddai ymrwymo i'r Siarter yn golygu unrhyw oblygiadau newydd sylweddol. Pe byddai'r Cyngor yn mabwysiadu amcanion y Siarter, bydd y Cyngor yn mesur ei gynnydd ar bob ymrwymiad yn ôl y camau isod:

- Dyddiau cynnar a chynllunio;
- Dechrau'r daith a gweithredu;
- Wedi'i gwblhau, a;
- Dangos arweiniad.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cwblhau neu'n gweithredu ar 2/3 o'r ymrwymiadau; ac o ran yr ymrwymiadau hynny ble rydym yn y "dyddiau cynnar", mae'r rhan fwyaf ar y rhaglen waith yn barod neu ar droed, ac yn cael eu gweld fel enillion hawdd nad ydynt gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Crynhoir hyn yn y tabl yn Atodiad 2. Mae'n dangos y cam sydd wedi'i gyrraedd yn barod a'r adnodd (neu ddim) sydd ynghlwm ag ychydig o'r ymrwymiadau.


1.7. Byddai ymrwymo i'r Siarter hefyd yn gyson â nod y *Cynllun Argyfwng Hinsawdd* i wneud "Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." I'r pwrpas hwn, mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais ar gael staff i deithio'n gynaliadwy, megis y prosiectau isod:

- Leihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff (8.6.), ac;
- Annog teithio llesol ymysg staff er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon (8.7.).

Mae Bwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor eisoes wedi cychwyn ar raglen waith i newid arferion cymudo staff, hynny er mwyn lleihau allyriadau cyffredinol y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor fesur allyriadau carbon sy'n deillio o batrymau cymudo staff ac adrodd ar y data hwn i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Felly, byddai ymrwymo i'r Siarter yn gydnaws â bwriad y Cyngor i newid patrymau cymudo staff a lleihau allyriadau corfforaethol.

1.8. Byddai ymrwymo i'r Siarter hefyd yn cefnogi amcanion corfforaethol y Cyngor fel y'u diffinnir yng *Nghynllun y Cyngor*, megis Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Bydd teithio llesol a defnydd cynyddol o drafnidiaeth cyhoeddus ymhlith staff nid yn unig yn cyfrannu at amcanion "gwyrdd" y Cyngor, ond hefyd yn ein gwneud yn fwy effeithlon – hynny oherwydd yr arbedion posib o annog teithio amgen yn hytrach na'r car ble bo hynny'n bosib.

1.9. Oherwydd pwyslais y Siarter ar gael staff i deithio'n gynaliadwy, nid yw cyd-destun gwledig Gwynedd yn peri'r un her a phe bai gan y Siarter fwriad mwy cyffredinol, yn edrych ar y system drafnidiaeth sirol i gyd a gyda'r cyhoedd mewn sylw. Oherwydd hyn, nid yw swyddogion yn credu fod daearyddiaeth wledig y Sir yn gwneud ymrwymiad i'r Siarter yn afrealistig. Byddai ffocws y gwaith, fel gyda newid arferion cymudo ehangach, yn seiliedig ar yr hierarchaeth isod:




Y bwriad fyddai annog staff sy’n “gallu gwneud”, “yn dangos parodrwydd i wneud” ac a “ddylai wneud”, i deithio mewn ffyrdd amgen yn hytrach na’r car, hynny trwy godi ymwybyddiaeth o’r buddion personol, amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â hwyluso’r profiad o ddefnyddio dulliau amgen o deithio. Mae’r Siarter yn canolbwyntio ar yr hyn sy’n ymarferol bosib, h.y., nid yw’n canolbwyntio ar y bobl hynny sydd methu troi at ddulliau amgen. Mae’r Siarter yn amodol ac yn cydnabod bod y math mwyaf priodol o deithio yn ddibynnol ar gyd-destun yr unigolyn dan sylw, e.e., daearyddiaeth, topograffeg, cyfleoedd cludiant cyhoeddus, pellter teithio ayyb. Felly, yn hytrach na mynnu y newid mwyaf dwys, mae’r Siarter yn annog newid mwy dilyniannol a realistig ymhlith staff, gan ddechrau gyda rhannu ceir a symud at ddulliau mwy cynaliadwy ble bo hynny’n bosib:



***MWY CYNALIADWY***

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol. Disgwyliaf bydd unrhyw anghenion cyllidebol yn cael eu cwrdd un ai trwy gyllidebau presennol neu trwy gronfeydd sydd eisoes wedi eu clustnodi.

**Swyddog Monitro** – Fel y nodir mae'r Siarter yn gynnyrch gwaith rhanbarthol ac is rhanbarthol i sefydlu ystod o amcanion ac egwyddorion sydd yn gydnaws a Polisïau ac amcanion lleihau Carbon y Cyngor. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Aelod/au Lleol** – Dim yn berthnasol

# Siarter Teithio Llesol
## Gogledd Cymru

Rydym yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon, gwella ansawdd yr aer a chefnogi iechyd a llesiant staff

**Gan gydweithio ledled Gogledd Cymru, dros y ddwy flynedd nesaf rydym yn ymrwymo i wneud y canlynol...**

### Cyfathrebu ac arweinyddiaeth

**Sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr teithio cynaliadwy**
Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy rhagweithiol, gan gynnwys uwch staff, rheolwyr a lle bo'n berthnasol, aelodau etholedig, sy'n hyrwyddo ac yn modelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy fel mater o drefn, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy

**Defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson**
Cytuno a defnyddio negeseuon cyfathrebu rheolaidd a chyson gyda'r cyhoedd, ymwelwyr a staff ar deithio llesol a lleihau teithio diangen, gan gynnwys targedu pobl o wahanol gefndiroedd, rhyw, oedran, galluoedd ac anableddau

**Ystyried teithio iach ar draws ein swyddogaethau ehangach**
Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau

**Annog teithio cynaliadwy drwy bolisïau treuliau**
Adolygu ein polisïau treuliau teithio a'n prosesau cynllunio teithiau ar gyfer staff, i gyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy

**Darparu arweinyddiaeth strategol ar deithio iach**
Cydweithio â phartneriaid a darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol ar deithio llesol a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol

**Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol ar y ffyrdd.**
Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol ar y ffyrdd (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio mewn lonydd beicio), er mwyn galluogi cerdded a beicio diogel

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Hyrwyddo gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio cynaliadwy**
Archwilio gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a chyda darparwyr trafnidiaeth leol

### Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

**Darparu gwybodaeth ar sut i gyrraedd ein prif safleoedd drwy gysylltiadau cynnaladwy**
Darparu gwybodaeth a mynediad rhwydd ato ar sut i gyrraedd ein prif safle(oedd) drwy gysylltiadau cynnaladwy fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft drwy gyfrannu at fap rhyngweithiol

### Beicio a cherdded

**Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith**
Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff (gan gynnwys e-feiciau)

**Darparu cyfleusterau ac ategolion i staff er mwyn annog teithio llesol**
Asesu a darparu storfa feiciau, cawodydd a loceri diogel a hygyrch ym mhob safle addas

**Galluogi staff i gael mynediad at feiciau yn haws yn y gwaith**
Gwella mynediad i feiciau yn y gwaith lle bo'n briodol, e.e. beiciau cronfa, beiciau llog a beiciau cargo

**Hyrwyddo sesiynau hyfforddiant a chynnal a chadw beicio**
Archwilio a hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw lle bo hynny'n briodol

### Gweithio ystwyth

**Cefnogi gweithio hyblyg**
Darparu opsiynau gweithio hyblyg i staff lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu hwb, a hyrwyddo diwylliant o weithio ystwyth ar draws safleoedd y sector cyhoeddus

### Cerbydau allyriadau isel iawn (batri, trydan neu hydrogen)

**Adolygu darpariaeth cyfleusterau gwefru cerbydau trydan**
Adolygu'r angen am seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) ac e-feiciau ar ein safleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

**Edrych ar opsiynau ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn yn ein fflydoedd ac mewn trefniadau caffael**
Adolygu ein fflyd a'n trefniadau caffael (lle bo'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys e-gargo ac e-feiciau lle bo'n briodol

Ar gyfer llofnodwyr, rhagor o wybodaeth a chymorth, ewch i: **teithiollesol.cymru/gogleddcymru**

***ATODIAD 2. CYNNYDD SYDD EISOES WEDI'I WNEUD AR YR YMRWYMIADAU A HWYLUSTOD UNRHYW WEITHREDU PELLACH***

| | *Dyddiau cynnar a chynllunio* | *Dechrau'r daith a gweithredu* | *Wedi'i gwblhau* | *Dangos arweiniad* |
|---|---|---|---|---|
| *Sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr teithio cynaliadwy* | ✓ | | | |
| *Defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson* | ✓ | | | |
| *Ystyried teithio iach ar draws ein swyddogaethau ehangach* | | ✓ | | |
| *Annog teithio cynaliadwy drwy bolisïau treuliau* | | ✓ | | |
| *Darparu arweinyddiaeth strategol ar deithio iach* | | ✓ | | |
| *Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol ar y ffyrdd* | | | ✓ | |
| *Hyrwyddo gwybodaeth sut i gyrraedd ein prif safleoedd drwy gysylltiadau cynaliadwy* | ✓ | | | |
| *Darparu gwybodaeth ar sut i gyrraedd ein prif safleoedd drwy gysylltiadau cynaliadwy* | ✓ | | | |
| *Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith* | | | ✓ | |
| *Darparu cyfleusterau ac ategolion i staff er mwyn annog teithio llesol* | | ✓ | | |
| *Galluogi staff i gael mynediad at feiciau yn haws yn y gwaith* | | ✓ | | |
| *Hyrwyddo sesiynau hyfforddiant a chynnal a chadw beicio* | | ✓ | | |
| *Cefnogi gweithio hyblyg* | | | ✓ | |
| *Adolygu darpariaeth cyfleusterau gwefru cerbydau trydan* | | ✓ | | |
| *Edrych ar opsiynau ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn yn ein fflyd ac mewn trefniadau caffael* | | | ✓ | |

**Gwyrdd** – Ymyraethau hawdd sydd wedi'u hadnabod yn barod a sydd ddim yn gofyn am gyllideb.

**Melyn** – Ymyraethau sy'n gofyn am fwy o gydlynu ond sydd ddim angen unrhyw fuddsoddiad ariannol.

**Oren** – Gofyn am fuddsoddiad mewn cyfleusterau er mwyn hwyluso teithio amgen ac actif ymhlith staff, e.e., beicio a chael loceri a chawodydd.